CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

CYHOEDDIAD O FWRIAD I BEIDIO Â PHARATOI DATGANIAD AMGYLCHEDDOL
RHEOLIAD 5 RHEOLIADAU ASESU EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL (GWAITH GWELLA DRAENIO TIR) 1999

GWAITH GWELLA MEWN PERTHYNAS Â
**CYNLLUN LLINIARU LLIFOGYDD FFORD TURBERVILLE**

**MAE CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** ("Y Cyngor") **YN HYSBYSU** fel a ganlyn yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir) 1999:

1. Mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud gwaith gwella draenio tir ar y cwrs dŵr cyffredin di-enw sy'n tarddu yn cludo o Stryd Turberville tuag at ardal leol y Porth o amgylch y B4278 Ffordd Aber-Rhonddaac yn cludo i'w gollyngfa yn yr Afon Rhondda. Bwriad y gwaith yw uwchraddio strwythur cilfach y cwlfer i wella'r hygyrchedd, mesurau rheoli malurion ac amodau rheoli cilfachau i wneud y mwyaf o'r capasiti a'r gwytnwch yn y strwythur cilfach. Yn ogystal, bydd y rhwydwaith i lawr yr afon yn derbyn ystod o uwchraddiadau casgen cwlfer i gynyddu capasiti hydrolig, tra hefyd yn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion strwythurol gweddilliol. Bydd hyn wedyn yn lleihau'r risg o orlwytho hydrolig a achosir gan y rhwydweithiau cwlferi cwrs dŵr cyffredin a strwythurau cilfach.. Bydd y gwelliannau yma'n lleihau'r perygl o lifogydd glaw mewn ardal lle yr ystyrir bod risg uchel o lifogydd.

2. Dyw'r Cyngor ddim yn bwriadu paratoi datganiad amgylcheddol mewn perthynas â'r gwaith gwella arfaethedig. Gan gyfeirio at Atodlen 2 o Reoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir) 1999, yn ogystal â nodweddion y gwaith gwella, lleoliad y gwaith gwella a math a nodweddion yr effaith bosibl, fydd y gwaith ddim yn cael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd.

3. Ystyriwyd y mesurau lliniaru ac ataliol canlynol:

- Rheoli adeiladu i liniaru effeithiau sŵn, dirgryniad a llwch;

- Rheoli adeiladu i liniaru'r amser y mae gwaith yn gweithredu o fewn Cwrs Dŵr Cyffredin;

- Rheoli Adeiladu i liniaru'r potensial bod llygredd yn effeithio ar y rhwydweithiau cwrs dŵr arferol;

- Cydymffurfio â gofynion statudol ychwanegol sy'n ymwneud â Chaniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin (Adran 23 o'r Ddeddf Draenio Tir 1991) a Chymeradwyo Draenio Cynaliadwy (Atodlen 3 o'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010).

4. Mae disgrifiad o leoliad, natur a maint y gwaith gwella yn Rhan I o'r Atodlen i'r Hysbysiad yma.

5. Os yw rhywun yn dymuno gwneud sylwadau ysgrifenedig am effeithiau amgylcheddol tebygol y gwaith gwella arfaethedig, mae modd iddo wneud hynny drwy eu hanfon at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rheng-flaen yn 2 Llys Cadwyn, Stryd Taf, Pontypridd, CF37 1DU neu drwy anfon e-bost i RheoliPeryglLlifogydd@rhondda-cynon-taf.gov.uk o fewn 30 diwrnod ar ôl dyddiad yr Hysbysiad yma.

6. Mae modd cael yr wybodaeth ychwanegol am y gwaith gwella yn Rhan II o'r Atodlen i'r Hysbysiad yma gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Rheng Flaen yn 2 Llys Cadwyn, Stryd Taf, Pontypridd, CF37 1DU trwy anfon e-bost i RheoliPeryglLlifogydd@rhondda-cynon-taf.gov.uk.

## ATODLEN

Rhan I – manylion am y gwaith gwella


Lleoliad y gwaith gwella: Ffordd Turberville (OSGR 302227,192085), Ffordd Packers (OSGR 302289, 191940), a Ffordd Aber-Rhondda (OSGR 302328, 191808).

Natur a maint y gwaith gwella: Yr holl waith parhaol a'r gwaith dros dro sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

i. Gwaith i wella cyflwr cwlferi cwrs dŵr cyffredin yn strwythurol
ii. Gosod strwythur cilfach cwlfer gwell
iii. Creu trac mynediad diwygiedig o amgylch y cilfachau cwlferi i hwyluso cynnal a chadw yn y dyfodol
iv. Adfer yr holl ardaloedd yr effeithir arnynt gan y gwaith uchod.

Rhan II – Gwybodaeth ychwanegol

Mae lleoliadau'r gwaith arfaethedig i'w gweld ar y llun atodedig.



01 Ebrill 2025.
Andrew Wilkins
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol